Papur 7
Paper 7

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JJ/1826/20

John Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN

10 Mehefin 2020

Annwyl John,

Diolch am eich llythyr ar 15 Mai 2020 ar ôl i mi ymddangos yn sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar 5 Mai. Rwy'n falch o gael cyfle i drafod effaith Covid-19 ar y portffolio Tai a Llywodraeth Leol. Roeddech yn gofyn yn eich llythyr am ragor o wybodaeth am nifer o faterion, ac rwyf wedi rhoi'r wybodaeth honno isod.

Gyda golwg ar sut gall **awdurdodau lleol gael gafael ar y cyllid ychwanegol**, ac a oes unrhyw anawsterau gweinyddol, mae Cronfa Galedi Frys Awdurdodau Lleol yn cynnig £110m i helpu gyda'r costau ychwanegol sydd wedi codi o ganlyniad i'w hymateb i Covid-19. Rydym wedi canolbwyntio ar ddod o hyd i'r effeithiau ariannol ar awdurdodau lleol, sy'n deillio o'r camau ychwanegol y bu'n rhaid eu cymryd i ymateb i Covid-19 ac o ganlyniad i gostau ychwanegol darparu gwasanaethau parhaus yn fwy cyffredinol. Mae'r ffrwd cyllido hwn yn cynnwys hyd at £40m am gamau gweithredu hanfodol ar brydau ysgol am ddim, £10m ar gyfer cymorth digartrefedd a £40m i gefnogi darparu gofal cymdeithasol i oedolion.

Bydd hawliadau'n cael eu cyflwyno bob mis. Cafodd £2.3m ei dalu ar gyfer costau mis Mawrth a chafodd yr hawliadau ar gyfer mis Ebrill eu cyflwyno ar 20 Mai i'w hasesu a'u talu ym mis Mehefin. Mae awdurdodau wedi cael cymorth i'w llif arian gan fod setliad mis Mai a setliad mis Mehefin wedi cael eu talu'n gynnar ym mis Ebrill sy'n galluogi'r taliad mewn ôl-daliad.

Mewn perthynas â'n gwaith i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu darparu'r lefelau angenrheidiol o **gymorth ar gyfer yr economi leol** (gan gynnwys y stryd fawr), roedd ein cyhoeddiad Trawsnewid Trefi ym mis Ionawr yn cynnwys pecyn arall o gymorth ar gyfer canol trefi sy'n werth bron i £90m – sy'n adeiladu ar fuddsoddiad rhagamcanol o £800m yn ein trefi ers 2014. Mae'r buddsoddiad hwn yn parhau i alluogi ein partneriaid awdurdod lleol ac eraill i wella canol trefi ledled Cymru.

Rydym wrthi'n datblygu canllawiau i awdurdodau lleol ac eraill ynghylch yr addasiadau a'r ymyriadau dros dro y bydd eu hangen mewn mannau cyhoeddus (gan gynnwys y stryd fawr) wrth i gyfyngiadau Covid-19 gael eu codi'n raddol. Fel y nodwyd uchod, mae Cronfa



Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Galedi Frys Awdurdodau Lleol gwerth £110m yn cefnogi awdurdodau lleol gyda’u costau ychwanegol wrth ymateb i Covid-19.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi y byddwn yn cefnogi Ardaloedd Gwella Busnes yng Nghymru gyda’u costau rhedeg am hyd at dri mis er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn gallu parhau, a bod ar flaen y gad gydag ymdrechion adfer eu trefi. Mae’r cymorth hwn yn ychwanegol at y £1.7bn (sy’n gyfystyr â 2.7% o gynnyrch domestig gros Cymru) rydym eisoes wedi’i gyhoeddi i gefnogi busnesau yng Nghymru. Mae dros 52,000 o grantiau eisoes wedi cael eu talu, sydd gyda’i gilydd yn werth £640m. Mae'r rhain yn cynnwys grantiau o hyd at £25,000 ar gyfer busnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch yng Nghymru sydd mewn eiddo sydd â gwerth ardrethol rhwng £12,001 a £51,000 a grant o £10,000 i gwmnïau sy’n gymwys i gael rhyddhad ardrethi busnesau bach ac sydd â gwerth ardrethol o £12,000 neu lai. Bydd busnesau cymwys hefyd yn elwa o wyliau ardrethi a fydd yn para blwyddyn.

Ar ben hynny, mae ein Cronfa Cadernid Economaidd Covid-19 sy’n werth £500m a gyhoeddodd y Prif Weinidog ar 30 Mawrth yn ategu mesurau cymorth eraill ar gyfer economi Cymru, gan ddarparu cymorth i fusnesau, i fentrau cymdeithasol ac i elusennau sydd wedi gweld gostyngiad sydyn yn eu masnachu o ganlyniad i Covid-19. Yn ystod y cam cyntaf roedd cynllun benthyciadau Banc Datblygu Cymru a oedd yn werth £100m wedi cael ei ddefnyddio i gyd mewn ychydig dros wythnos, ac yn wreiddiol roeddem wedi darparu £300m o gymorth refeniw nad oedd yn rhaid ei ad-dalu i fusnesau. Ar hyn o bryd rydym wrthi’n cwblhau manylion cam nesaf y Gronfa Cadernid Economaidd, ac rydym yn disgwyl gwahodd ceisiadau erbyn diwedd mis Mehefin. Mae hyn ar ben ein Rhyddhad Ardrethi a chynllun Grantiau Busnes Llywodraeth Cymru sy’n cael ei weinyddu gan awdurdodau lleol.

Mae ein timau rhanbarthol yn gweithio gyda chydweithwyr o Busnes Cymru, Banc Datblygu Cymru ac awdurdodau lleol er mwyn casglu gwybodaeth am effaith Covid ar gwmnïau, gan gynnwys yn y sector ar wahân i fusnesau bach a chanolig. Mae datblygu’r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol yn bwysicach nawr nag erioed ac rydym yn cynnig ein bod yn newid ffocws y gwaith dros y tymor byr i ganolbwyntio ar yr ‘adferiad’ economaidd yn dilyn Covid-19. Rydym hefyd yn parhau i gynnig cyngor a chefnogaeth drwy Busnes Cymru, https://businesswales.gov.wales/cy/benthyciadau-cychwyn-busnes ac mae Benthyciadau Cychwyn Busnes yn dal ar gael i ddarparu cyllid i fusnesau sy’n cychwyn yng Nghymru ac mae gan Fanc Datblygu Cymru nifer o gronfeydd ar gael i gefnogi busnesau’n ariannol: https://bancdatblygu.cymru

Roeddech chi wedi gofyn beth sy’n cael ei wneud yn Llywodraeth Cymru i gofnodi’r newidiadau cadarnhaol i’r ffordd caiff **gwasanaethau awdurdodau lleol** eu darparu a'r arferion gwaith sydd wedi cael eu cyflwyno ers y pandemig, ac roeddech yn holi am rannu’r rhain ar draws y sector.

Rwyf yn awyddus i sicrhau bod cynllunio’r adferiad yn cael ei ddefnyddio fel cyfle i drawsnewid sut caiff gwasanaethau eu darparu, gan gydnabod mewn sawl maes gwasanaeth ein bod wedi newid sut rydym yn gweithredu’n llwyr; ac adeiladu ar y ffyrdd newydd o weithio yr oedd eu hangen er mwyn ymateb i Covid-19. Rydym yn gweithio gyda CLlLC i feddwl am y ffordd orau o gefnogi llywodraeth leol i wneud hyn, gan gynnwys drwy’r rhaglen cymorth gwella sy’n cael ei harwain gan y sector y mae Llywodraeth Cymru yn ei hariannu. Byddaf hefyd yn defnyddio’r amrywiaeth o ffyrdd rydym sydd gennym i ymgysylltu â llywodraeth leol, yn strategol ac ynghylch gwasanaethau penodol, i ganfod ac i rannu’r arferion da hyn. Cynhelir cyfarfod nesaf Cyngor Partneriaeth Cymru ar 10 Mehefin a bydd yn canolbwyntio ar y paratoadau ar gyfer adferiad yn y dyfodol, gan gynnwys ystyried y problemau, y cyfleoedd a'r blaenoriaethau ar gyfer adferiad cynaliadwy a thrawsnewid yn y tymor hwy.

Ar ben hynny, mae'r Prif Weinidog wedi cynnull cyfarfodydd rheolaidd o Gyngor Cysgodol y Bartneriaeth Gymdeithasol – sy'n cynnwys cynrychiolwyr o undebau, cyflogwyr a llywodraeth. Yn ystod cyfarfod Cyngor Cysgodol y Bartneriaeth Gymdeithasol ar 14 Mai cytunwyd y dylid ymestyn yr aelodaeth dros dro oherwydd yr amgylchiadau eithriadol o ganlyniad i Covid-19. Mae hi'n hollbwysig ein bod yn cael golwg lawn a chytbwys o'r materion sy'n wynebu'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol wrth symud ymlaen a bydd Cyngor Cysgodol y Bartneriaeth Gymdeithasol nawr yn cwrdd bob pythefnos i drafod y rhain. Rydym i gyd wedi ymrwymo i bartneriaeth gymdeithasol ac rydym yn wynebu'r un materion wrth edrych tua'r adferiad. Mae Cyngor Cysgodol y Bartneriaeth Gymdeithasol yn gyfle i bartneriaid cymdeithasol ymgysylltu ynghylch adfer yn dilyn Covid 19 ar lefel uchel a thrafod sut gall partneriaeth gymdeithasol gyfrannu at y cynllunio manylach y bydd angen ei wneud.

Rydym yn defnyddio'r system gynllunio i harneisio canlyniadau cadarnhaol y pandemig gan gynnwys mwy o weithio gartref, ansawdd aer gwell, pwyslais ar deithio llesol a mwy o ddibyniaeth ar rwydweithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol lleol. Mae Polisi Cynllunio Cymru a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol wedi cael eu dylunio i fynd i'r afael â'r heriau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y mae'n rhaid i Gymru roi sylw iddynt mewn ffordd integredig drwy ddefnyddio creu lleoedd. Mae'r pandemig wedi amlygu pwysigrwydd yr heriau dan sylw ymhellach. Y nod yw gwneud economïau, cymunedau ac amgylcheddau lleol yn gryfach drwy gefnogi cyfleoedd priodol i ddatblygu ledled Cymru. Rydym hefyd yn canfod ac yn adolygu polisïau cynllunio hen a newydd ac offer cynllunio eraill i weld os oes angen newidiadau i helpu'r adferiad ar ôl COVID-19.

Mae awdurdodau lleol hefyd yn cael eu hannog i rannu'r gwersi sydd wedi cael eu dysgu a nodi'r newidiadau cadarnhaol sydd wedi cael eu gwneud i wasanaethau sy'n cael eu darparu drwy'r Grant Plant a Chymunedau. Ar hyn o bryd, mae'r tîm Alinio Cyllid yn gweithio gydag awdurdodau lleol drwy weminarau bob pythefnos ac rydym yn edrych ar ffyrdd o rannu'r wybodaeth hon yn well.

Mae gwaith arloesol a chadarnhaol iawn hefyd wedi cael ei wneud ar gysgu allan a digartrefedd, sy'n cyd-fynd â'ch cais am ragor o eglurder ynghylch sut rydym yn sicrhau bod lefelau cyson o **gymorth ar gyfer y rheini sydd wedi cael llety** ar draws Cymru. O'r safbwyntiau hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi creu rhith-dîm sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'r 22 awdurdod lleol i ddarparu cymorth a rhannu unrhyw ganllawiau, negeseuon ynghylch rheoleiddio a chyfathrebu yn ehangach a sicrhau bod pob awdurdod yn effeithiol wrth weithredu gofynion canllawiau sy'n ymwneud â llety a gwasanaethau cefnogi.

Mae'r tîm yn cysylltu'n rheolaidd â CLlLC, sef y sefydliad ambarél sy'n cynrychioli awdurdodau lleol ledled Cymru, a Cymorth, sef y sefydliad ambarél trydydd sector ar gyfer mudiadau cefnogi, er mwyn sicrhau bod achosion o'r arferion gorau o ran darparu gwasanaethau'n cael eu cofnodi bob wythnos a bod modd eu rhannu ar draws y sector.

Mae nifer o swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio'n uniongyrchol gydag awdurdodau lleol pan fydd gwybodaeth sydd wedi cael ei chofnodi gan y rhith-dîm wedi dangos bod angen cymorth ychwanegol i ddod o hyd i gapasiti llety ychwanegol neu help ehangach gyda gwasanaethau cefnogi.

Rydym hefyd wedi trefnu nifer o ddigwyddiadau dros y we er mwyn dod â rhanddeiliaid sectorau allweddol ynghyd i gyfathrebu'n uniongyrchol a rhannu achosion o ddarparu gwasanaethau'n dda a lle mae gwasanaethau wedi cael eu haddasu i ddiwallu'r galw a ffyrdd newydd o weithio yn ystod y pandemig. Mae hyn yn cynnwys gweminar sy'n cael ei gynnal gan Shelter Cymru, CLlLC, Cartrefi Cymunedol Cymru a Cymorth a oedd wedi canfod, cofnodi a rhannu achosion o weithio a chydweithio llwyddiannus ar draws y sector. Rydym hefyd wedi gofyn i awdurdodau lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a

darparwyr cefnogaeth i rannu enghreifftiau o weithio llwyddiannus y byddai modd i ardaloedd eraill eu mabwysiadu.

Rydym wedi lansio ein rhaglen Llwybr at Dai sy'n nodi'r prif ddisgwyliadau ac egwyddorion ar gyfer awdurdodau lleol a'r sector yn ehangach dros y cyfnod nesaf o gefnogi'r rheini sydd wedi cael eu rhoi mewn llety brys hyd yma. Yn dilyn y digwyddiad lansio, *Cynllunio, Adeiladu, Trawsnewid* (a gynhaliwyd ar 28 Mai) rydym wedi cynllunio cyfres o ddigwyddiadau dilynol sy'n canolbwyntio ar adeiladu ar y llwyddiannau sydd wedi cael eu canfod hyd yna a dod o hyd i gyfleoedd ar gyfer rhagor o gydweithio yn y sector.

A throi at sut gallwn newid agweddau a dulliau er mwyn ymgysylltu'n well â'r **trydydd sector** a'i gynnwys yn well a sicrhau bod hynny'n parhau ar ôl i'r argyfwng hwn basio. Mae hi'n bwysig ein bod yn cydnabod yn gyhoeddus ymgysylltiad gwych pobl Cymru drwy wirfoddoli i gefnogi pobl eraill. Mae Wythnos y Gwirfoddolwyr yn gyfle perffaith ar gyfer hyn ac mae wedi cael mwy o sylw ac mae'n rhoi cyfle i godi proffil gwirfoddoli a'r manteision i'r naill ochr a'r llall. Caiff hyn ei gefnogi gan ganllawiau hygyrch clir sy'n sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael gwybodaeth a'u bod yn ddiogel.

Mae hi'n bwysig hefyd ein bod yn cadw'r momentwm a'r diddordeb mewn gwirfoddoli a lle nad oes modd defnyddio gwirfoddolwyr ar hyn o bryd rydym yn cadw mewn cysylltiad, gan gynnig hyfforddiant sgiliau ac rydym yn gweithio'n agos gyda mudiadau cymunedol i asesu'r anghenion.

Mae gwaith partneriaeth agos yn hanfodol ac mae'r ffaith bod awdurdodau lleol yn gweithio'n agos gyda Chynghorau Gwirfoddoli Sirol a Byrddau Iechyd Lleol yn golygu bod y seilwaith mewn lle ynghyd â'r gallu i gynllunio, i gofnodi anghenion ac i ddarparu cymorth.

Yn y pen draw, mae Llywodraeth Cymru yn falch o'r ffordd mae'r trydydd sector wedi cael ei gefnogi ac mae hyn wedi talu ar ei ganfed drwy alluogi mudiadau Cymru i wynebu'r her. Daw hyn yn bwysicach fyth wrth i ni symud ymlaen at gyfnod a fydd yn anoddach yn ariannol.

Roeddech wedi gofyn am ragor o fanylion ynghylch unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch cyfraddau **Lwfans Tai Lleol** a'r cymorth sydd ar gael i bobl **nad ydynt yn gallu cael gafael arian cyhoeddus**. Ysgrifennodd y Prif Weinidog at Brif Weinidog y DU ar 6 Hydref 2019 ynghylch effaith negyddol gadael yr UE heb gytundeb ar Gymru. Yn y llythyr dywedodd y Prif Weinidog fod Llywodraeth Cymru yn credu y dylai blaenoriaethau'r pecyn gynnwys cynyddu cyllid y gwasanaethau cyhoeddus allweddol mae pobl ddifreintiedig yn dibynnu arnynt; a chynyddu taliadau budd-daliadau i grwpiau sydd dan anfantais, ac yn benodol mynd i'r afael â'r blwch sy'n cynyddu rhwng budd-daliadau sy'n ymwneud â thai a gwerth rhenti go iawn.

Yn olaf, mewn perthynas â'ch cwestiwn ynghylch meini prawf yr **Ardrethi Annomestig**, mae gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio ac awdurdodau lleol weithdrefnau sefydlog a manwl ar waith ar gyfer pennu a yw eiddo yn un domestig neu'n un annomestig, ac mae'r rhain yn cael eu cefnogi gan ddeddfwriaeth a chanllawiau helaeth. Mae'r meini prawf cymhwyso ar gyfer eiddo hunanddarpar sydd i'w dosbarthu fel rhai annomestig wedi cael eu nodi'n glir mewn deddfwriaeth ac rydym wedi ymgynghori'n eang ynghylch y mater hwn droeon. Meini prawf Cymru yw'r mwyaf caeth o blith holl wledydd y DU. Mae'r gyfraith yn taro cydbwysedd rhwng buddiannau cymunedau lleol, perchnogion cartrefi a'r diwydiant twristiaeth.

Mae'n rhaid i berchnogion llety hunanddarpar ddarparu tystiolaeth bod eu heiddo yn diwallu'r meini prawf. Asiantaeth y Swyddfa Brisio sy'n pennu os yw eiddo yn ddomestig neu'n annomestig. Mae'r Asiantaeth yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru. Rhaid i

berchnogion sy'n ceisio symud eu heiddo o restr y dreth gyngor i restr annomestig fel llety hunanddarpar gyflwyno cais i Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Rhaid iddynt lenwi ffurflen a darparu tystiolaeth mewn dogfen bod yr eiddo'n diwallu'r meini prawf gosod. Rhaid i Asiantaeth y Swyddfa Brisio adolygu'r dystiolaeth hon cyn newid y rhestr.

Rydym yn gwybod bod rhai awdurdodau lleol wedi mynegi pryderon ynghylch y posibilrwydd y gallai'r grantiau Covid-19 gael eu talu i berchnogion eiddo sydd ond yn gosod eu heiddo o bryd i'w gilydd. Cafodd canllawiau'r grant eu diwygio ar ôl cael trafodaethau gydag awdurdodau lleol. Er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb wrth weinyddu'r cynllun, nid oes cynlluniau i ddiwygio'r meini prawf cymhwysedd.

Gobeithio bod yr wybodaeth hon o gymorth i'r Pwyllgor.

Yn gywir,



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government